Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**



# Gofal plant a chwarae

# Cynllun peilot ar gyfer cyfarfodydd gwella

## Canfyddiadau

- **60** — Cynhaliwyd 60 o gyfarfodydd gwella.
- **96%** — Roedd 96% o'r darparwyr yn teimlo bod y canllawiau a roddwyd iddynt cyn y cyfarfod yn glir ac yn hawdd eu deall.
- **91%** — Roedd 91% o'r darparwyr yn teimlo eu bod wedi gallu gwella ansawdd eu gwasanaeth o ganlyniad i'r cyfarfod gwella.
- Yr amser lleiaf a gymerwyd i gwblhau cyfarfod gwella oedd ychydig yn llai nag awr.
- **57%** — Cafodd 57% o wasanaethau eu cyfeirio at adnoddau defnyddiol.

### Cefndir

Lansiwyd y cynllun peilot ar gyfer cyfarfodydd gwella ym mis Ebrill 2023 a bu ar waith tan ddiwedd mis Mehefin 2023. Cymerodd 60 o ddarparwyr gofal plant a chwarae ran yn ein cynllun peilot, a dyma grynodeb o'u hadborth.

### Beth yw cyfarfod gwella?

Cynhelir cyfarfod gwella rhwng arolygiadau ac mae'n gyfle i ddarparwyr rannu unrhyw welliannau y maent wedi'u gwneud ers yr arolygiad diwethaf â ni. Mae hefyd yn ystyried sut maent wedi ymateb i unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio neu argymhellion a wnaed yn ystod eu harolygiad diwethaf.

> "Rwy'n teimlo'n llai pryderus nawr am fy arolygiad sydd ar ddod. Diolch"

> "Roedd yn gyfle gwych i ofyn cwestiynau a chael atebion yn syth"

> "Roedd yn braf cael adborth, ac mae gwybod fy mod yn gwneud pethau'n iawn wedi rhoi mwy o hyder i mi"